Wrth lanhau a chlririo'r Ystafelloedd Coco yn ddiweddar, cafwyd hyd i dwnel o dan y grisiau. Wrth chwilio'n bellach, fe welwyd bod hwn yn mynd yn uniongyrchol at seler y Golden Lion. Mae ymchwil wedi dangos bod aelodau gwreiddiol yr Ystafelloedd Coco yn ei ddefnyddio i fynd i'r Golden Lion, rhoi mymryn o chwisgi yn eu coco ac wedyn dychwelyd heb i neb eu gweld. Ond fe ddaeth yr arfer i ben, gan i aelodau pwyllgor yr Ystafelloedd fynd yn amheus o'r ymweliadau aml â'r ystafell o dan y grisiau a chaewyd y fynedfa i'r twnnel.

Y gobaith yw agor y twnnel fel atyniad i ymwelwyr fis Ebrill nesaf.

2022

Falle eich bod wedi sylwi ar lawer o fynd a dod ar dir gyferbyn â'r Kinnel Arms yn ddiweddar. Roedd y Detectoryddion Metel o Lannau Merswy wedi bod yn ymchwilio yno ddydd Sul, 7 Mawrth, ac wedi gwneud darganfyddiadau cyffrous, gan ddod 'nôl wythnos yn ddiweddarach. Daeth Steve a Harry o hyd i ddarn arian Rhufeinig ac arteffactau eraill wedi eu gwneud o aur, llestri pridd a theils mosäig.

Mae ymchwiliadau pellach wedi datgelu tystiolaeth bod fila Rhufeinig, baddondy ac adeiladau eraill ar y safle. Mae archeolegwyr wedi ymchwilio i'r darganfyddiad newydd yma, ac maen nhw'n sier mai tref goll Dyrniniwm neu Caerdyrnog ydi hi. Yn ystod yr haf fe welwch chi brysurdeb mawr yn yr ardal yn ystod y cloddio, er mwyn datgelu'r llawr mosäig. Gobeithio y bydd hyn yn rhan o arddangosfa barhaol, a fydd yn cael ei noddi gan Procter Johnson, perchnogion newydd safle'r Hufenfa.

2025

Mae'r gymuned wedi bod yn llwyddiannus mewn cael arian o'r Gronfa Lefelu. Yn unol â thelerau'r grant, bydd yn talu am lefelu a gwastatáu cae pêl-droed Cae Nant. Mae hi wedi bod yn anodd penderfynu p'run sydd orau, chwarae'r hanner cyntaf ar i fyny neu ar i lawr, felly dylai hyn helpu capteiniaid timau yn y dyfodol.

2017

A spring clean of the Cocoa Rooms recently led to the discovery of a tunnel under the stairs. Further exploration showed that this underpass leads directly to the cellar of the Golden Lion. Research has revealed that it was used by members of the original Cocoa Rooms to access the Goldie, pop a tot of whisky in their cocoa and return to the meeting without discovery. However, suspicious of the members' frequent visits to the washroom under the stairs, the Society eventually ended this practice by boarding up the tunnel entrance.

It is hoped to open the tunnel as a visitor attraction next April.

2022

You may have noticed a lot of activity lately on land opposite The Kinnel Arms. Metal detectorists from Merseyside were detecting there on Sunday, 7th March and having made a very exciting discovery, came back the following week. Steve and Harry found a Roman coin and other artefacts made of gold and dug up some pottery and mosaic tiles.

Further investigations have revealed evidence of a Roman villa, a bath house, and other buildings on the site. Archaeologists have investigated this new discovery and are convinced that it is the lost Roman town of Dyrninium. During the summer months you will see even more activity in the area while a 'dig' takes place to uncover the villa's mosaic floor.

It is hoped that this will form part of a permanent exhibition, sponsored by Procter Johnson, the new owners of the Creamery site.

2025

The community has been successful in obtaining funds from the Levelling Up Grant Scheme. In accordance with the terms of the grant it will be put towards the levelling up of Cae Nant football pitch. It has always been a toss-up decision whether to play the first half uphill or down, so this should help the team captains in the future.

Paige Tynan

Medi 2020

Llongyfarchiadau i Paige Tynan ar raddio o Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn gwyddoniaeth fforensig. Mae hi hefyd ar restr gwobrau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) Cymru yn y categori 'Myfyriwr mwyaf addawol y flwyddyn'. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd.

Hydref 2020

Apêl am gyfraniadau: Bydd Paige Tynan yn dechrau ar ei doethuriaeth mewn Gwyddoniaeth Fforensig yn fuan a dymunwn yn dda iddi. Gan fod ychydig iawn o arian ar gael ar gyfer y pwnc yma, mae Paige yn gorfod talu ei hun am eu hastudiaethau.

Mae Paige wedi creu tudalen i godi arian a byddai'n falch iawn petaech yn cyfrannu.

Mehefin 2025

Hoffai Nigel a Maria Tynan longyfarch eu merch, Dr Paige Tynan, sydd wedi cwblhau ei Doethuriaeth mewn Taffonomi Fforensig ym Mhrifysgol Caer. Llywyddwyd y seremoni graddio gan Gyles Brandreth yng Nghadeirlan Caer ar 14 Mawrth. Ar hyn o bryd mae Paige yn ddarlithydd biowyddorau ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ers iddi gwblhau ei Gradd Baglor yn y Gwyddorau mewn Gwyddoniaeth Fforensig yn 2020.



September 2020

Congratulations to Paige Tynan on graduating from Glyndŵr University, Wrexham, with a first-class honours degree in forensic science. She is also on the shortlist of the Welsh STEM (science, technology, engineering and maths) awards in the 'Rising star of the year' category – quite an honour.

October 2020

Paige starts her PhD in Forensic Science later this month and we wish her well, but since there is very little funding available for this subject, she is having to self-fund her studies. Paige has set up a crowd-funding page (with Crowd.Science) to help towards the cost of her research. Any contribution would be gratefully received.

June 2025

Nigel and Maria Tynan would like to congratulate their daughter, Dr Paige Tynan, who has completed her PhD in Forensic Taphonomy at the University of Chester.

The graduation ceremony was presided over by Gyles Brandreth at Chester Cathedral on 14th of March.

Paige is currently a lecturer of Biosciences at Wrexham Glyndŵr University which she started after completing her Bachelor of Science Degree in Forensic Science in 2020.

Mae Paige wedi ennill nifer o wobrau gan gynnwys cymeradwyaeth uchel yn y Gwobrau Israddediglon Byd-eang, gwobr dewis yr aelodau yng nghynhadledd haf Cymdeithas Anthropoleg Fforensig Prydain, a medal aur yng nghystadleuaeth gwyddoniaeth fforensig Worldskills.

Hyn oll er i athro ysgol uwchradd ddweud wrthi na fyddai byth yn pasio ei harholiadau gwyddoniaeth.

Paige has received a number of awards including a high commendation at the Global Undergraduate Awards, the Delegates' Choice Award at the British Association for Forensic Anthropology's Summer Conference and the Gold Medal at the WorldSkills UK Forensic Science Competition.

All this despite being told in secondary school that she would never pass her science exams.

Penycloddiau

Tachwedd 2017

Dros y chwe blynedd diwetha mae Prifysgol Lerpwl wedi bod yn rhedeg ysgol haf gyda thua 40 o fyfyrwyr archaeoleg o bob rhan o'r byd yn mynychu am ryw dair wythnos yn dysgu eu crefft.

Ar y gwrthglawdd sydd yn rhedeg o amgylch y Bryngaer, gwelwyd ei fod wedi'i adeiladau gan ddefnyddio *gabions* pren, yn debyg iawn i'r rhai metel a ddefnyddir heddiw. Mae tystiolaeth bod dros 80 o dai crwn ar y safle ac maen nhw hefyd wedi dod o hyd i seiliau gwreiddiol y polion pren a oedd yn cynnal y to a'r waliau.



Trefnodd *Llais Llandyrnog* fore coffi i helpu i godi arian i garbon-ddyddio rhai o'r samplau o'r safle. Bydd y dechneg ddrudd hon yn eu galluogi i roi amcan mwy cywir o oed y fryngaer. Cafwyd rhagor o roddion pellach gan Gymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan, a Chyngor Cymuned Llandyrnog, felly y pentref a ariannodd ddyddio adeiladu'r fryngaer.

Medi 2018

Mae Dr Rachel Pope a thîm o Adran Archeoleg Prifysgol Lerpwl wedi treulio pedair wythnos yn cwblhau eu hymchwil ar fryngaer Penycloddiau. Cafodd y tîm hyd i olion ychwanegol o garbon a bydd yn defnyddio'r rhain i garbon-ddyddio'r fryngaer. Mae'r BBC wedi bod yn recordio ar y safle ar gyfer y rhaglen *Dig for Britain* a Dr Alice Roberts yn cyflwyno. I weld y rhaglen ewch i www.bbc.co.uk/iplayer a chwiliio am *Digging for Britain*, Cyfres 7, pennod 4, *Iron age revealed*. Mae'r eitem yn dechrau 35'54" i mewn i'r rhaglen.

November 2017

For the last six years over the summer months, some 40 archaeology students from all parts of the world have attended a training project at Penycloddiau Hillfort.

On the original wall of the rampart, they have discovered that the wall was built in sections. There is evidence that over 80 circular houses existed on the site and they have also found the original foundations for the wooden poles that supported the roof and walls.

Llais Llandyrnog Voice held a coffee morning to help raise funds to carbon-date some of the samples discovered on site. This expensive technique will enable them to add more precision to the age of the hillfort. The coffee morning raised nearly £200 and further donations were received from Llandyrnog and Llangwyfan History Society, and Llandyrnog Community Council, therefore the village funded the carbon dating.

September 2018

Dr Rachel Pope and a team from Liverpool University's Archaeology Department have spent four weeks completing their research at Penycloddiau Hillfort. The team discovered additional traces of carbon and these will be used to carbon-date the age of the hillfort.

This week the BBC has been filming at the site for the *Dig for Britain* programme presented by Dr Alice Roberts. To see the programme, go to www.bbc.co.uk/iplayer and search for *Digging for Britain*, Series 7, 4. Iron age revealed. The item on Penycloddiau starts at 35'54" into the programme.



Penycloddiau

Medi 2022

Dyma ganlyniadau'r dyddio carbon gan Dr Pope: Mae'r canlyniadau'n dangos bod y bryn wedi'i ddefnyddio gyntaf ystod y cyfnod Neolithig Cynnar (c. 5000–4000 CC, felly 6000–7000 o flynyddoedd yn ôl).

Mae'r fryngaer ei hun yn fath cynnar ac mae wedi'i hadeiladu mewn chwe cham ar wahân. Amgawyd y bryn gyntaf gyda ffos yn yr Oes Efydd Ddiweddar (12fed–10fed ganrif CC, felly 3000 o flynyddoedd yn ôl). Yna cafodd ei hailfodelu ychydig ganrifoedd y ddiweddarach tua 800 CC.

Wedyn mae yna fwlch yn y gweithgareddau, ac ar ôl hynny gellir gweld tri cham adeiladu gyda phridd a cherrig. Dangosodd y dyddio carbon fod llwyfan y tŷ a gloddiwyd wedi'i adeiladu yn niwedd yr Oes Haearn Ganol (2il ganrif CC). Roedd y mathau hyn o fryngaerau cynnar mawr yn parhau i gael eu meddiannu ochr yn ochr â datblygiad newydd y bryngaerau llawer llai o'r Oes Haearn Ganol, fel Moel Arthur a Bodfari.

September 2022

Here are the results of the carbon-dating from Dr Pope:

The results show that the hill was used first (before it was enclosed) during the Early Neolithic period (c. 5000–4000 BC, so 6000–7000 years ago).

The hillfort itself is an early type and has six separate stages of construction. The hill is first enclosed with a ditch in the Late Bronze Age (12th–10th centuries BC, so 3000 years ago). It is then remodelled a few centuries later with around 800 BC.

Then there's a gap in activity, after which three phases of earth and stone construction can be seen. The house platform that was excavated returned a late Middle Iron Age date (2nd century BC). These big early hillfort types continued to be occupied alongside the new development of the much smaller Middle Iron Age hillforts like Moel Arthur and Bodfari.

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I
LAWR

01745 815141

07808970364

TY CEFFYL BACH



Facebook

07768 331488



Instagram


www.tyceffylbach.co.uk

info@tyceffylbach.co.uk

4 Kinmel Terrace, Llandyrnog



- Unique gifts
- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art and friends
- Quirky gifts to suit all budgets
- Open 11-4pm, Tues-Sat



Laura Jones

Mai 2016

Dod i adnabod Laura Jones

Roedd gen i awydd erioed i helpu rhai llai ffodus, ac mi gefais i le yng Ngholeg y Brenin, Llundain i ddilyn cwrs nyrsio. Yn 2011, fe ddes i'n rhan o dîm meddygol Stadiwm Genedlaethol Wembley Cyf, ac erbyn hyn rydw i'n Gydlynnydd Meddygol yno. Yn ogystal â hyn i gyd rydw i'n nyrs staff llawn amser yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys, Ysbyty Coleg y Brenin. Yn 2015, mi benderfynes i wneud gradd meistyr mewn clefydau heintus yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain

Be ydi dy gynlluniau am y dyfodol?

Ar ôl i mi gwblhau'r MSc mewn Clefydau Heintus, roeddwn i'n ddigon ffodus i ennill Ysgoloriaeth i Nepal am dri mis gyda'r bwriad o ymchwilio ymhellach, a gweithio ochr yn ochr â chleifion sy'n dioddef o'r gwahanglwyf. Yna, bydda i'n hedfan i Nicaragua ym Medi am dri mis gyda'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol (ICS,) a chydweithio'n agos â llywodraethau Nicaragua a'r Deyrnas Unedig i sicrhau bod cefnogaeth feddygol hanfodol ar gael i rai o gymunedau tlotaf y byd. Mi fydda i'n dod nôl i'r Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr, cyn hedfan i Borneo fis Ionawr 2017 am dri mis, fel gwirfoddolwr gyda *Raleigh International*.

Be'n union mae Raleigh International yn ei wneud?

Mae'n canolbwyntio ar weithio gydag ieuenctid, i'w hysbrydoli a gwneud newidiadau positif mewn meysydd fel glanweithdra dŵr a hylendid, defnyddio adnoddau naturiol yn effeithiol a rhoi hyder i gymunedau bregus.

Hydref 2016

Cyfarchion o Nicaragua.

Rydw i yma bellach yn gweithio mewn cydweithrediad â Raleigh a'r Gwasanaeth Dinesig Rhyngwladol (ICS). Fy rôl i fel Swyddog Meddygol Tîm Uwch fydd gofalu am iechyd, lles a diogelwch pawb sydd ar y prosiect o fewn y gwahanol gymunedau, a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd dŵr, glanweithdra a hylendid.

Laura Jones

Medi 2017

Erbyn hyn mae Laura wedi cyrraedd adre 'nôl i Lundain yn ddiogel ar ôl dau fis yn Sani, sydd ar y ffin rhwng Parc Cenedlaethol Yasuni a Gwarchodfa Natur Cuyabeno yn fforestydd glaw Ecuador wrth yr Amazon

ac Ynysoedd y Galápagos. Hi oedd Prif Swyddog Meddygol Operation Wallacea, sy'n trefnu ac yn gweithredu teithiau ymchwil rheoli bioamrywiaeth a chadwraeth mewn gwledydd anghysbell dros y byd i gyd.

Ionawr 2022

Fis Tachwedd diwetha, daeth Laura Jones – ein Laura ni, merch Keith a Bethan – dros ei harswyd o siarad yn gyhoeddus i fod yn siaradwr gwadd yng

Nghynhadledd Meddygaeth Eithafol y Byd a gynhaliwyd yng Nghaeredin.

Ymgynghorydd Iechyd Byd-eang elusen Save the Children International yw Laura, ac mae hi'n gweithio yn Barcelona. Mae ei gwaith gyda chyrrff anllwyodraethol yn cynnwys Ymgynghorydd Iechyd Rhyngwladol i'r VSO yn Bangladesh, Uganda, Malawi a Tanzania; Swyddog Meddygol a Deifiwr Meddygol Raleigh International ac Operation Wallacea yn Nicaragua, Costa Rica, Ecuador, Mexico, a De Affrica; Addysgwr Clinigol Cenhadaeth y Gwahangleifion yn Nepal, a nyrs i Ddoctoriaid y Byd yn y Deyrnas Unedig. Teitl darlith Laura yn y gynhadledd oedd 'Stigma, Guilt and Gaps in the System'.

Ardderchog, Laura – rydyn ni yn Llandyrnog yn falch iawn o dy lwyddiant.



Mae Laura wedi'i henwi yn un o Arweinyddwyr Busnes Forbes 2025 yn Sbaen. Erbyn hyn mae hi'n Gyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Byd-eang Save the Children International. Mae hi wedi cydlynu gweithrediadau maes dyngarol mewn argyfyngau difrifol a chymhleth yn Asia, Affrica, America Ladin, a'r Dwyrain Canol. Hi oedd y ferch gyntaf i ymgymryd â gwacáu meddygol yn Gaza. Mae hi'n athro yn World Extreme Medicine ac yn sylfaenydd Almas Libres, un o'r cyrrff anllwyodraethol sy'n tyfu gyflymaf yn Sbaen. Mae hwn yn hyrwyddo arweinyddiaeth gan ferched trwy chwaraeon, diwylliant, a thechnoleg.

Mae hi hefyd wedi'i henwebu yn un o ddeg prif arwr dyngarol y flwyddyn.

Laura Jones

May 2016

Spotlight on Laura Jones

My desire to help those less fortunate than me led me to undertake my nursing degree at King's College University, London. In 2015, I decided to undertake an MSc in Infectious Diseases at The London School of Hygiene and Tropical Medicine.

What are your future plans?

When I completed my MSc, I was fortunate enough to gain a Scholarship to Nepal for three months, to undertake further research and work alongside patients affected by leprosy. Then I will fly to Nicaragua in September for three months with International Citizens' Service (ICS) and work closely with the UK and Nicaraguan governments to ensure vital medical support is provided to some of the poorest communities in world. I will be flying out to Borneo in January to volunteer with Raleigh International for three months.

What exactly does Raleigh International do?

It focuses on working through, for, and with youth to inspire and make positive changes in areas such as water sanitation and hygiene, effective use of nature resources and building resilience in vulnerable communities.

October 2016

Greetings from Nicaragua

I am now working in collaboration with Raleigh and International Citizen Service. My role as Advanced Team Medic is to ensure the health, safety and welfare of all involved in the projects as well as working within each of the communities to raise awareness of the importance of water, sanitation and hygiene.

Medi 2017

As we catch up with her now, she has just arrived safely in London from a two-month placement in Sani, located on the borders of the Yasuní National Park and Cuyabeno Natural Reserve in the Ecuadorian Amazon rainforest and the Galápagos. She has been the Lead Medical Officer with Operation Wallacea, that designs and implements

biodiversity and conservation management research expeditions in remote locations across the world.

January 2022

Laura Jones – our very own Laura, Keith and Bethan's daughter – recently overcame her extreme fear of public speaking to be a guest speaker in front of an audience of hundreds at the World Medical Conference held in Edinburgh last November.

Laura is Global Staff Health Advisor for Save the Children international and is based in Barcelona. Her former roles in the NGO sector include International Health Advisor for VSO in Bangladesh, Uganda, Malawi and Tanzania; Medical Officer and Diver Medic for Raleigh International and Operation Wallacea in Nicaragua, Costa Rica, Ecuador, Mexico, and South Africa; Clinical Educator for The Leprosy Mission in Nepal, and a nurse for Doctors of the World in the UK.

The title of the lecture was 'Stigma, Guilt and Gaps in the System'. Well done, Laura – we in Llandyrnog are all very proud of your achievements.

Named one of Forbes Business Leaders 2025 in Spain. Laura is now Global Director of Health and Wellbeing, Save the Children International. She has worked with the UN, WHO, and the FCDO, coordinating humanitarian field operations in some of the most serious and complex crises in

Asia, Africa, Latin America, and the Middle East. She was the first women to lead medical evacuations in Gaza. She is a professor at World Extreme Medicine and the founder of Almas Libres, one of the fastest-growing NGOs in Spain, which promotes female leadership through sport, culture, and technology.

Also nominated as one of the top ten humanitarian heroes of the year.

Forbes



Joe Hinchcliffe

Medi 2020

Y llynedd, lladdwyd ffrind gorau Joe Hinchcliffe, Olivia Alkir, o ganlyniad i ddigwyddiad o yrru'n beryglus. Mae'n gofyn i chi sicrhau na fydd damwain debyg byth yn digwydd eto. Llofnodwch a rhannwch y ddeiseb sy'n gysylltiedig â galw am newid gan y llywodraeth: Rhaid i bob gyrrwr newydd gael blwch du a chael ei gyfyngu i gario un teithiwr yn unig.

Tachwedd 2020

Byddwch yn falch o wybod bod deiseb Joe Hinchcliffe wedi cael dros 10,000 o lofnodion. Gyda'r gefnogaeth hon, y gobaith yw y bydd y cynigion hyn yn dod yn gyfraith.

Mawrth 2021

Cyfarfu Joe, ynghyd â mam Olivia, Jo Alkir, yn ddiweddar â Darren Millar MS a chynrychiolwyr Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI). Dywedodd

Darren Millar fod yr ABI yn cydymdeimlo ac yn rhannu eu cynigion ar gyfer trwydded yrru raddedig, gyda chyfyngiadau ar yrwyr newydd am y 12 mis cyntaf i helpu i feithrin sgiliau gyrru.

Medi 2021

Mae Joe Hinchcliffe yn un o ddim ond pum myfyriwr o'r Deyrnas Unedig sydd wedi cael ysgoloriaeth bedair blynedd gan Morehead-Cain. Mae'r rhaglen hon o'r Unol Daleithiau



yn talu'n llawn i fyfyrwyr o'r safon uchaf astudio ym Mhrifysgol Gogledd Carolina.

Gwnaeth Joe argraff fawr ar y pwyllgor dethol gyda'i ganlyniadau academiaidd, ei allu ym myd chwaraeon – mae'n beldroediwr brwd, yn ogystal â'i waith gwirfoddol a oedd yn cynnwys ymgychu dros newidiadau i ddeddfwriaeth diogelwch ar y ffyrdd.

Graddiodd Joe â B.S. mewn Bioleg o Brifysgol Gogledd Carolina. Mae wedi dechrau gweithio yn San Francisco i Triangle Insights Group gan Valeris fel dadansoddwr strategaethau.

Ionawr 2025

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau na fydd yn cyflwyno trwyddedau gyrru graddedig, yn dilyn dadl yn y Senedd.

Ebrill 2025

Aeth ymgyrchwyr y Forget-me-Not Families Uniting, gan gynnwys teulu Olivia Alkir, i 10 Stryd Downing i gyflwyno deiseb yn galw am gynllun trwyddedau gyrru graddedig i ddiogelu gyrwyr ifanc a dibrofiad.



Paul Clark
Conservatories



♦ Survey, supply and fit:

- ♦ conservatories
- ♦ orangeries
- ♦ verandas
- ♦ porches
- ♦ windows
- ♦ doors

07546 911871

Joe Hinchcliffe

September 2020

Last year, Joe Hinchcliffe's best friend, Olivia Alkir, was killed as a result of dangerous driving. Please help him make sure that a similar accident never happens again. Sign and share the petition linked to demand change from the government: All new drivers must have a black box and be limited to carrying one passenger.

November 2020

You will be pleased to know that Joe Hinchcliffe's petition has had over 10,000 signatures. With this support, the hope is for these proposals to become law.

March 2021

Joe, together with Olivia's mother Jo Alkir, recently met with Darren Millar MP and representatives of the Association of British Insurers (ABI). Darren Millar

said that the ABI was sympathetic and shared their proposals for a graduated driving licence, with limits on new drivers for the first 12 months to help build up driving skills.

September 2021

Local student Joe Hinchcliffe is one of only five from across the UK to secure a four-year scholarship from Morehead-Cain. This US-based merit programme provides a complete fully-funded educational experience for students to study at the University of North Carolina (UNC) at Chapel Hill.

The talented 19-year-old impressed the admissions committee with his academic results, sporting credentials – being a keen football player, as well as his voluntary work outside of school, which included campaigning for changes to road safety legislation.

Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

**Joe graduated
with a B.S. in
Biology from the
University of
North Carolina.
Now works in San
Francisco for
Triangle Insights
Group by Valeris
as a Strategy
Analyst.**



January 2025

**Following a debate in Parliament, the
Government has confirmed that it will not be
introducing graduated driving licences.**

April 2025

**Campaigners of the Forget-me-Not Families
Uniting, including the family of Olivia Alkir,
visited 10 Downing Street to deliver a petition
for a graduated driver licence scheme to
safeguard young and novice drivers.**

Neisha Roberts

Ebrill 2016

Mae Neisha yn bencampwraig rhedeg traws-gwlad Gogledd Cymru, gan iddi ennill bob un o'r pedair ras yng nghynghrair Gogledd Cymru. Hi hefyd oedd y buddugwr yng nghynghrair swydd Stafford.

Enillodd Neisha her traws-gwlad athletau Prydain yng Nghaerdydd, a daeth yn gyntaf yn y bencampwriaeth yn Abertawe. Felly, mae Neisha hefyd yn bencampwr traws gwlad Cymru, yn y categori o dan 11 oed.

Tachwedd 2019

Antur Neisha



Gwelais hysbyseb yn holi a oedd gennym ni blant oedd yn hoff o chwaraeon – meddyliais am Neisha. I dorri stori hir yn fyr, dewiswyd Neisha yn un o dair merch i fod ar y rhaglen newydd – *A week to beat the world*. Aethon nhw i Kenya a byw gyda'r llwyth Maasai, yna i Mongolia ac am wythnos i Malaysia. Darlledwyd y rhaglenni ar CBBC ac ar BBC2.

Mel Roberts

Mawrth 2020

Llongyfarchiadau anferth i Neisha Roberts, Bryn Noddfa, ar ddod yn bencampwr dan 16 Gogledd Cymru yn y gamp o seiclo traws gwlad.

Fel arfer mae seiclo traws gwlad yn cynnwys mynd o gwmpas cwrs byr, 2.5 neu 3.5 km sawl gwaith. Ar y cwrs mae rhwystrau amrywiol sy'n gorfodi'r seiclwyr i ddod oddi ar ei feic yn gyflym, cario'r beic wrth fynd heibio'r rhwystr, mynd yn ôl ar y beic – ac anelu am y llinell derfyn.

Medi 2021

Llongyfarchiadau i Neisha Roberts ar fod yn bencampwr Cymru dan 17 oed yn y ras ffos a pherth. Roedd hi'n rhedeg ym mhencampwriaethau Cymru a gynhaliwyd yng Nghasnewydd.

2023

**Chwarae cefnwr i dîm rygbi merched RGC dan 18
Pencampwr rhedeg traws gwlad Gogledd Cymru
dan 20.**

**Enillydd teitl y merched hŷn yn y bencampwriaeth
athletau ysgolion a gynhaliwyd yng Nghaerdydd**



2024

**Enillydd ei chategori oed yn y gystadleuaeth seiclo
traws-gwlad i ferched**

2025

All yn Nhreiglathlon Gwiblo Eirias

EISTEDDFOD LLANDYRNOG

**5 o'r gloch, nos Wener, 17 Hydref
yn Neuadd y Pentre**

Dewch i gefnogi doniau lleol – croeso i bawb!

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



Neisha Roberts

April 2016

Neisha is North Wales cross-country champion, winning all four races in the North Wales cross country league and also winner of the Staffordshire league.

Neisha also won the U11 British athletics cross challenge in Cardiff and came first in Swansea, making her Welsh champion under 11.

November 2019

Neisha's adventure

I saw an advert asking if you have sporty kids, and I thought of Neisha. To cut a long story short, Neisha was one of only three girls chosen to make a new programme – *A week to beat the world*.

They went to Kenya and lived with the Maasai tribe, then to Mongolia, and spent a week in Malaysia. The programmes were transmitted on CBBC and BBC2.

Mel Roberts

March 2020

Huge congratulations to Neisha Roberts on recently becoming the U16 North Wales Cyclocross Champion. Cyclocross is a form of bicycle racing cross-country and typically consists of many laps of a short 2.5 or 3.5km course featuring various obstacles requiring the rider to quickly dismount, carry the bike while navigating the obstruction and remount – and head for the finish.

September 2021

Congratulations to Neisha Roberts on being crowned the Under-17 Welsh champion in the steeplechase. She competed in the Welsh athletics championships held in July in Newport.



2023

Plays full back for RGC Under 18 women's rugby team.

North Wales cross country champion U20. Senior ladies winner in Schools athletics championships, held at Cardiff

2024

Neisha overall Female winner in her age category in Cyclo-cross.

2025

Neisha 2nd in Eirias Sprint Triathlon



J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1

Dyffryn Trading Estate

Rhyl Road

Denbigh

LL16 5SJ

01745 817676

07775 717602

Gruff Crowther

Awst 2016

Mae Gruff Crowther wedi bod yn annog pobl i godi arian at CLIC Sargent, yr elusen i blant sy'n dioddef o gancr. Mae Gruff wedi bod yn cael triniaeth cemotherapi ers 21 mis. Yn ddiweddar mae wedi cael gwybod bod ei diwmor ar yr ymennydd, yn y man lle mae ei nerfau optig yn cyfarfod, wedi ymateb i'r driniaeth.

Dechreuodd Gruff godi arian drwy ysgrifennu cân. Cyfansoddodd Gai Toms gerddoriaeth i'r geiriau a chafodd Gruff wahoddiad i ganu ei gân ar Radio Cymru a sôn am ei diwmor ar yr ymennydd. Aeth hyn ymlaen at ymddangosiadau ar y teledu ac yn y wasg leol. Yn ystod y cyfnod hwn roedd cyfraniadau'n dod drwy'r wefan Just Giving. Wedyn cafodd Gruff wahoddiad i Dŷ'r Cyffredin i godi ymwybyddiaeth aelodau seneddol a'r cyhoedd am diwmorau ar yr ymennydd a chaner mewn plant.

Yr uchafbwynt i Gruff oedd 'cychwyn' y Daith Tractorau flynyddol. Fe fwynhaodd hyn yn fawr iawn a mynnodd wisgo'i *rosette* a'i fathodyn am sawl diwrnod wedyn. Cododd y daith £700 i CLIC Sargeant.



Chwefror 2020

Llongyfarchiadau i Gruff, ŵyr Jack Crowther ac wyneb cyfarwydd yn Llandyrnog, ar gael ei wahodd i ymuno â chanolfan genedlaethol baralympaidd Swim Wales am weddill y tymor.

Mawrth 2020

Ddiwedd mis Ionawr, roedd Gruff Crowther wrth ei fodd i ennill dwy fedal aur yng Ngala Nofio'r Urdd yng Nghaerdydd – y naill am y ras 50 metr dull rhydd a'r llall am y ras 50 metr nofio ar y cefn.

Ionawr 2022

Llongyfarchiadau i Gruff Crowther, ŵyr Jack Crowther, ar ennill medal aur ym Mhencampwriaethau Nofio Para Prydain yn Abertawe.

Medi 2022

Enillodd Gruff, fedal aur ym Mhencampwriaethau Agored Nofio Cymru yn Abertawe. Ei gamp oedd y 100 metr dull rhydd, ac roedd ei amser 5 eiliad yn gyflymach na'i orau personol blaenorol.



Ebrill 2025

Mae Gruff wedi recordio dwy gân, drwy'r sefydliad Make a Wish UK, yn stiwdios RAK. Mae nifer fawr o gerddorion enwog wedi bod yn recordio'u gwaith yn y stiudio yma, o Paul McCartney a The Who i Jess Glynne a Tinie Tempah. Dilynwch Gruff ar TikTok @ffurg.gruff a gwrandewch ar *Never Danced Before* ar Spotify.

Medi 2025

Dychwelodd Gruff i chweched dosbarth Ysgol y Santes Ffraid i astudio ar gyfer ei arholiadau Lefel A.

H G Web DESIGNS

SERVICES - GWASANAETHAU

WEBSITES GWEFANNAU	EMAILS EBYST
SOCIAL MEDIA CYFRYNGAU CYMDEITHASOL	TYPESETTING & PRINTING GWAITH CYSODI AC ARGRAFFU

www.hgwebdesigns.co.uk

hannah@hgwebdesigns.co.uk 07984 511164

Gruff Crowther

August 2016

For the last few weeks Gruff Crowther has been encouraging people to raise money for CLIC Sargent, the children's cancer charity. Gruff has had some 21 months of chemo and has recently been told that the brain tumour, which is at the junction of his optic nerves, has responded to treatment.

CLIC Sargent has been a considerable help to Gruff and his family throughout the whole process. Gruff started his fund raising by writing a song. The song was set to music by Gai Toms and Gruff was then invited to appear on Radio Cymru to sing his song and talk about his brain tumour. This then progressed to appearing on TV and in the local newspapers and throughout this period donations were accumulating through Just Giving. Gruff was then invited to The Houses of Parliament to a function to raise MP's and public awareness of brain tumours and children's cancers.

To top it all Gruff was then invited to 'start' the Vale of Clwyd tractor run which he thoroughly enjoyed and insisted on wearing his rosette and badge for several days afterwards. The run raised £700 for CLIC Sargent.

February 2020

Congratulations to Gruff Crowther, grandson of Jack and a familiar face in Llandyrnog, on being invited to train with the Swim Wales National Para Performance squad.

March 2020

In late January, Gruff Crowther was thrilled to win gold in the para visually impaired category for the 50m freestyle and the 50m back-stroke at the Urdd

Swimming Gala in Cardiff.

January 2022

Gruff Crowther, grandson of Jack Crowther, won a gold medal at the British Para Swimming National Meet in Swansea. Medi 2022

Gruff, won a gold medal at the Swim Wales Summer Open Event in Swansea in the 100 metres freestyle, knocking 5 seconds off his previous personal best.



April 2025

Gruff recorded a couple of songs, through the Make a Wish UK foundation, at the RAK studios.

Many big names in the music industry, from Paul McCartney and The Who to Jess Glynne and Tinie Tempah, have recorded here.

Follow Gruff on TikTok @ffurg.gruff and listen to *Never Danced Before* on Spotify.



September 2025

Gruff has returned to the sixth form of St Brigit's school to study for his A-levels.

Denbighshire County Council

Merfyn Parry

Contact details

Phone: 07836 208446



E-mail: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Or leave a message on Facebook

Gwinllan y Dyffryn

Tachwedd 2022

Plannwyd bron i 8,000 o winwydd a sefydlwyd Gwinllan y Dyffryn ym mis Mehefin 2019. Roedden ni wedi ymchwilio i fathau o winwydd a fyddai yn ffynnu yn ein hinsawdd ac wedi cael cyngor da ar sut i'w sefydlu a'u rheoli. Dros y tair blynedd gyntaf, ein prif bwrpas oedd sefydlu'r gwinwydd yn llwyddiannus gan sicrhau bod coesynnau a gwreiddiau da yn datblygu.

Ym mis Hydref 2021, ar ôl tri thymor o dyfu, roedd gennym ni gnwd da o rawnwin i'w gynaeafu. Mae 6 math o rawnwin yma, 2 gwyn a 4 coch a byddwn yn creu hyd at 6 math gwahanol o win.

Erbyn hyn mae tri o'r gwinoedd wedi eu potelu a'u labelu a bellach ar werth – ac ar hyn o bryd rydym yn dod at ddiwedd cynhaeaf 2022.

Rhys Davies

Rhagfyr 2022

Llongyfarchiadau i Rhys a Gwen Davies, Gwinllan y Dyffryn ar eu llwyddiant yn y Gwobrau Gwin Cymreig o dan nawdd Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru. Enillodd eu *Vale Solaris* y wobwr am y gwin gwyn gorau, a'r *Vale Ronde Rosé* y wobwr am y rosé llonydd gorau.



Mehefin 2023

Llongyfarchiadau i Gwen Davies, o Winllan y Dyffryn, a gyrhaeddodd rhestr fer gwobr Seren Ddisglair y Flwyddyn yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru. Rhoddir y wobwr hon i unigolion yn eu pum mlynedd gyntaf yn y diwydiant bwyd.

Rhagfyr 2023

Aethom i Winllan Llanerch yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer Noson Wobrwy Tlysau Gwinllannoedd Cymru ddechrau mis Tachwedd.

Eleni roedd dros 50 o winoedd wedi cael eu cyflwyno i'r pedwar beirniad roedd â'r dasg o'u blasu i gyd, heb weld y label!

Roedd o'n sioc ac yn anrhydedd i dderbyn y wobwr am y gwin pefriog rosé gorau o Gymru. Hwn ydy'r gwin pefriog cyntaf i ni ryddhau ac mae'n broses hir i gynhyrchu gwin pefriog yn y dull traddodiadol yma. Ond mae wedi bod yn werth aros gan fod y gwin hefyd wedi ei wobrwyo â medal aur – yr un gyntaf i'n gwinllan.

Gwen Davies

Awst 2024

Llongyfarchiadau lu i Gwen a Rhys Davies, Gwinllan y Dyffryn, ar ennill rhagor o gydnabyddiaeth am eu gwinoedd lleol ardderchog. Cyflwynwyd Tlws Riedel dros Gymru iddyn nhw yn seremoni wobrwyo Wine GB yn y Drapers' Hall, Llundain ganol mis Gorffennaf.

Rhagfyr 2024

Mae Gwinllan y Dyffryn wedi ennill gwobr am y gwin rosé pefriog gorau a'r rosé llonydd gorau yng ngwobrau diweddar Cymdeithas Gwinllannoedd Cymru.



Awst 2025

Llongyfarchiadau i Gwen a Rhys sydd wedi ennill gwobr arall i'w ychwanegu at eu casgliad. Eu 'Robin Goch' oedd yr enillydd yng nghategori'r gwin coch amgen yn seremoni wobrau Wine GB yn Llundain yn ddiweddar.

Vale Vineyard

November 2022

In June 2019 almost 8,000 vines were planted and the Vale Vineyard was established. We had researched types of vines that would work in our climate and received good advice on how to establish and manage them.

Over the first three years, our main purpose was to successfully establish the vines, ensuring that good roots and stems develop.

In October 2021, after 3 seasons of growing, we had a good crop of grapes to harvest. There are 6 types of grapes here, 2 white and 4 red and we will create up to 6 different types of wine.

Three of the wines have now been bottled and labelled and are now for sale, and we are currently approaching the end of the 2022 harvest.

Rhys Davies

December 2022

Congratulations to Rhys and Gwen Davies of the Vale Vineyard on their success at the Welsh Wine Awards of the Welsh Vineyards Association. Their Vale Solaris won the award for the best white wine, and the Vale Ronde Rosé for the best still rosé.

June 2023

Congratulations to Gwen Davies, of the Vale Vineyard, who reached the short list for the Rising Star of the Year award in the Wales Food and Drink Awards. This is given to individuals in their first five years in the food and drink industry.

December 2023

We went to Llanerch Vineyard in Rhondda Cynon Taf for the Wales Vineyards Trophy Awards Evening in November.

This year, over 50 wines were introduced to the four judges, who had the enviable task of tasting them all – minus the labels of course!

It was a shock and an honour to receive the award for the best rosé sparkling wine in Wales. This is the first rosé wine that we have produced, and it is a long process to produce rosé wine in this traditional way. But it was worth the wait as the rosé was also awarded a gold medal – the first for the vineyard!



Gwen and Rhys receiving the gold award from Deiniol ap Dafydd, Blas ar Fwyd and Andy Mounsey, Chairman of the Welsh Vineyards Association

August 2024

Many congratulations to Gwen and Rhys Davies of Vale Vinyard on winning further national recognition for their excellent local wines. They received the Riedel Trophy for Wales at the prestigious Wine GB Awards held at The Drapers' Hall London on 19 July. December 2024

Vale Vinyard has also been awarded the best sparkling rosé and best still rosé at the recent Welsh Vineyard Association awards.

August 2025

Congratulations to Gwen and Rhys, who have received another award to add to their collection. Their 'Robin Goch' scooped Overall Winner in the best alternative red wine category at the Wine GB awards ceremony in London recently.



Siop Llandyrnog Shop

Tachwedd 2019

Roedd clywed bod siop y pentre yn cau ddydd Sul, 24 Tachwedd yn siom aruthrol i'r pentrefwyr. Y gostyngiad mewn busnes sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Bydd y swyddfa bost ar agor fel arfer.

Dymunwn yn dda i Rob a Ros gan ddiolch am eu gwasanaeth gwerthfawr.

Gorffennaf 2022

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus cyntaf o Brosiect Siop a Swyddfa Bost Gymunedol Llandyrnog nos Iau, 26 Mai i gynulleidfa lawn yn Neuadd y Pentref. Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd y cyfle i'r gymuned brynu'r Swyddfa Bost ac ailagor y siop sydd bellach wedi cau ers dwy flynedd.

Medi 2022

Cafwyd dau weithgaredd i godi arian tuag at brosiect Siop Gymunedol Llandyrnog – cwis yn y Golden Lion dan arweiniad y cwis-feistr Phil O'Loughlin, ac yna bore coffi yn Neuadd y Pentref wedi ei drefnu gan Ffrindiau Siop Llandyrnog. Drwy haelioni'r gymdogaeth codwyd £900 tuag at gronfa'r siop.

Chwefror 2023

Daeth y newydd fod ein cais am grant i helpu i brynu'r Swyddfa Bost ac adfywio'r hen siop wedi bod yn llwyddiannus. Cawsom y swm llawn o £200,000 gan y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol, rhan o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd yn golygu ein bod nawr dros hanner ffordd i'r cyfanswm yr ydym yn ceisio ei godi.

Mai 2023

Nos Fercher 27 Ebrill, daeth dros 70 o bobol o bentrefi Llandyrnog, Llanychan, Llanynys, Gellifor, Llangynhafal, Bodfari ac ymhellach i noson lansio 'Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol' yn Neuadd y pentref. Y nod yw codi isafswm o £30,000 ac uchafswm o £70,000 gan ein Cynllun Cyfranddaliadau Cymunedol. Isafswm buddsoddiad am un gyfran fydd £25.

Mehefin 2023

Diolch i haelioni a ffydd llawer o bobol leol a ledled y wlad, mae'r cynnig cyfranddaliadau bellach dros y trothwy o £30,000 ac mae heddiw wedi cyrraedd £34,850 gyda 163 o fuddsoddwyr.

Hydref 2023

Bu oedi i gael penderfyniad ar ein grant Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Ar ôl gwrthio am benderfyniad gyda chefnogaeth ein Haelodau o'r Senedd, nos Lun cafwyd galwad ffôn gan Chris

Buchan o Lywodraeth Cymru i gadarnhau bod swm o £200,000 wedi ei gytuno i'w roi i Siop Gymunedol Llandyrnog.

Tachwedd 2023

Mae trefniadau nawr wedi symud ymlaen i brynu'r Siop a'r Swyddfa Bost gyda'n twrne yn gweithio i gael dyddiad cwblhau. Wedyn bydd y gwaith adnewyddu a gwelliannau yn dechrau cyn gynted a fydd bosib.

Rhagfyr 2023

Yn dilyn gwahoddiad gan y Gweinidog Ffyniant Bro, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove, AS, gyda Dr James Davies, AS, roedd yn bleser mynychu derbyniad yn 10 Stryd Downing i gynrychioli ein prosiect. Roedd y derbyniad yn cydnabod prosiectau llwyddiannus a oedd wedi cael grantiau gan yr Adran Ffyniant Bro.

Mawrth 2024

Ar ôl 20 mis o weithio ar Brosiect Siop a Swyddfa'r Post, daeth y 9fed o Chwefror 2024 yn ddyddiad cofiadwy iawn pan orffennwyd y gwaith o brynu Swyddfa Bost Llandyrnog.



Ebrill 2024

Ar Ddydd Iau 14 Mawrth roedd yn bleser gennym groesawu Felicity Buchan, AS, Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i ymweld â phrosiect siop a swyddfa bost Llandyrnog a gweld y cynlluniau sydd ar y gweill. Roedd yn falch o weld sut y bydd yr arian grant yn cael ei ddefnyddio ac fe gafodd daith o gwmpas yr adeilad.

Awst 2024

Mae Emyr Morris wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w rôl fel ysgrifennydd y cwmni a chyfarwyddwr. Mae'r

Siop Llandyrnog Shop

cyfarwyddwyr yn gobeithio y bydd y gymuned gyfan yn ymuno â ni i ddiolch i Emyr am ei weledigaeth wych a'r eni a ddangosodd ar ran y gymuned i droi'r weledigaeth honno i ailagor y siop.

Mai 2025

Llongyfarchiadau i'r siop gymunedol a ddaeth yn ail yn ei chategori yng Ngwobrau'r Gynghrair Cefn Gwlad. Cyflwynodd Hannah Thomas, gohebydd materion gwledig ITV Cymru i Jackie Le Fevre, Emyr Morris, Ivan Butler a Viv Rosser.



November 2019

Residents of the village are very disappointed to hear that, owing to the continuing downward spiral in trade, the village store will cease trading on Sunday 24 November. The post Office will open as normal.

We thank Rob and Ros for their valuable Service to the community and wish them well.

July 2022

The first public meeting of the Llandyrnog community shop and post office project was held on 26 May to discuss the opportunity for the community to purchase the post office and re-open the shop which had been closed two years earlier.

February 2023

After months of work by the directors, two weeks before Christmas came the news we had been patiently waiting for. Despite a delay of two months in the decision date, the news came that our grant application to assist in the purchase of the post office and reinstate the shop had been successful.

We were granted the full amount of £200,000 by the Community Ownership Fund part of the UK Government Levelling up Fund. This means that we are now over half-way to our target.

May 2023

On Wednesday evening, April 27, over 70 people from Llandyrnog, Llanychan, Llanynys, Gellifor, Llangynhafal, Bodfari and beyond attended the launch of 'The Community Share Offer' in the village hall. The directors hope to raise a minimum of £30,000 and a maximum of £70,000 from the community Share Scheme. The minimum payment for a share will be £25.

June 2023

Thanks to the generosity and good faith of many, many local people and some folk from far and wide, the share offer is now firmly over the £30,000 threshold and today stands at £34,850 and 163 investors.

October 2023

The last three months have been very challenging for the project owing to the delay on our Community Facility Programme grant decision.

**Denbigh
Building
Plastics**

SUPPLIERS & INSTALLERS
*U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.
Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.*

**Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
Open Mon—Fri 7.30am—5 pm
Sat 9 am—12 pm**

Siop Llandyrnog Shop

After pushing for a decision with the support of our local MSs, Monday evening brought a call from Chris Buchan, of the Welsh Government, to confirm that the funds of £200,000 have been granted to The Llandyrnog Community Shop Ltd.

November 2023

Following our recent success in securing the Welsh Government Community Facilities Grant Funding of £200,000 and the fantastic £51,150 raised from Community Shares, a public meeting was a great way to let everyone know how we will be moving the project forward. Arrangements are well advanced now to complete on the purchase of the shop and post office with solicitors working towards setting a completion date.

December 2023

Following an invitation from the Levelling-Up Minister, Rt Hon. Michael Gove, MP with Dr James Davies, MP, it was a pleasure to attend a reception at 10 Downing Street to represent our project. The reception recognised successful projects that had been awarded grants from the Department of Levelling-Up.

March 2024

After 20 months of working on the shop and post office project, 9 February 2024 became a very memorable date when we finally completed on the purchase of the Llandyrnog Post Office.

April 2024

On Thursday 14th March we were delighted to welcome Felicity Buchan, MP and Parliamentary Secretary of State in the Department for Levelling-Up, Housing and Communities to see the plans we have in place to renovate and re-open the Shop. She was delighted to see how we were planning to spend the grant funds and had a tour of the building.

August 2024

Emyr Morris has sadly decided to stand down from his role as Company Secretary and Director. The Directors hope that the whole community will join us in thanking Emyr for his fantastic vision and the energy he has shown to turn that vision into the reopening the shop.

May 2025

Congratulations to the community shop – runners-up in its category in the Countryside Alliance Awards. The award was presented by Hannah Thomas, rural affairs correspondent for ITV Wales, to Jackie Le Fevre, Emyr Morris, Ivan Butler and Viv Rosser.



The shop as it is today, a real asset to the village

Llandyrnog Shop

Shop opening hours

Monday	8am – 5.30pm
Tuesday	8am – 5.30pm
Wednesday	8am – 5.30pm
Thursday	8am – 5.30pm
Friday	8am – 5.30pm
Saturday	8am – 4pm



07301 573362

01745 422099



info@llandyrnogshop.com



ShopLlandyrnog



llandyrnogshop.com

Post Office opening hours

Monday–Friday: 9am – 5.30pm

Saturday: 9am – 12.30pm

Parcels ordered on-line can be collected from the Post Office, for your convenience.

Also, post all your items at the counter, since an income is received from this.

